# Polisi ar gyfer Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn y Gweithle

| | |
|---|---|
| **Cyswllt:** | Lucy Hopkins, Rheolwr Cyfathrebu |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | Ionawr 2026 |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad Adolygiad:** | Ionawr 2027 |

Mae'r ddogfen Bolisi hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gellir ei darparu mewn fformatau amgen ar gais.

Mae dogfennau a chyfarfodydd sy'n cefnogi cyflwyno'r polisi hwn hefyd ar gael trwy gyfrwng Cymraeg a Saesneg (lle bo angen, efallai y bydd angen defnyddio cyfieithydd ar y pryd). Gellir hefyd sicrhau addasiadau rhesymol, megis fformatau amgen, ar gais.

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Egwyddorion y Polisi ........ 2
3. Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg ymysg Staff ........ 2
4. Hyfforddiant a Sgiliau ........ 2
   Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg ........ 2
   Hyfforddiant Iaith Gymraeg ........ 3
   Asesiad Sgiliau Iaith Cymraeg ........ 3
5. Recriwtio, Adnoddau Dynol, a Gohebiaeth ........ 3
6. Adnoddau ac Offer Cymorth ........ 4
   Galwadau ffôn, llofnodion e-bost, arwyddion a hysbysiadau ........ 4
7. Canllawiau, Cefnogaeth a Chyngor ........ 4

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'n ofynnol i ColegauCymru gydymffurfio â'r Safonau Iaith Cymraeg (y Safonau) fel y'u nodir mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd ar 25 Gorffennaf 2016. Y dyddiad ar gyfer cydymffurfio ar gyfer y rhan fwyaf o'r Safonau oedd 25 Ionawr 2017.

1.2. Mae'r polisi hwn yn nodi trefniadau mewnol ColegauCymru ar gyfer Defnyddio'r Iaith Gymraeg yn Fewnol yn y Gweithle ac yn manylu ar ein hymrwymiad i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith.

1.3. Darperir y wybodaeth hon fel sy'n ofynnol yn Safon 94 o'r Safonau, sy'n nodi: *"Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd."*

# 2. Egwyddorion y Polisi

2.1. Egwyddorion y polisi hwn yw:

- Bydd ColegauCymru yn darparu amgylchedd cefnogol i hyrwyddo defnydd yr Iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith y sefydliad.
- Ni fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg
- Ni fydd y polisi hwn yn effeithio'n negyddol ar gyflogaeth unrhyw aelod o staff
- Mae dewis iaith ar gael i weithwyr wrth ddelio â materion adnoddau dynol
- Anogir a chefnogir staff i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg

# 3. Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg ymysg Staff

3.1. Mae'r sefydliad o dan ddyletswydd statudol i ddangos ei ymrwymiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad. Gwneir staff yn ymwybodol o gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Bydd y sefydliad yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio Cymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo'r iaith ymhlith staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

# 4. Hyfforddiant a Sgiliau

## Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg

4.1. Cyflwynir Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i staff yn flynyddol. Nod yr hyfforddiant yw:

- Deall pwysigrwydd a safle'r Gymraeg, yn hanesyddol ac mewn Cymru gyfoes.
- Cynorthwyo staff i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.

### Hyfforddiant Iaith Gymraeg

4.2. Bydd cyfarfod tîm, unwaith y flwyddyn, yn ymroddedig i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, egluro sut i weithredu yn unol â'r Safonau, a hyrwyddo sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
4.3. Mae gan bob aelod o staff yr opsiwn i fynychu o leiaf awr o hyfforddiant Cymraeg yn ystod oriau gwaith bob wythnos i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.
4.4. Anogir aelodau staff i fynychu cyrsiau preswyl Cymraeg ar bob lefel, gyda staff wedi manteisio ar y cyfle hwn mewn blynyddoedd blaenorol.
4.5. Mae Dydd Mercher Cymraeg yn awr egwyl coffi a drefnwyd yn wythnosol lle gall dysgwyr sgwrsio'n anffurfiol â siaradwyr Cymraeg rhugl mewn amgylchedd hamddenol i ddatblygu eu sgiliau.

### Asesiad Sgiliau Iaith Cymraeg

4.6. Cynhelir arolwg dwyieithog i gofnodi sgiliau iaith Cymraeg yr holl staff yn flynyddol, gan alluogi'r sefydliad i ddiweddaru ei anghenion sgiliau ieithyddol ac i gydlynu a thargedu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio. Mae'r arolwg yn ei gwneud yn ofynnol i staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg eu hunain yn y meysydd canlynol:

- Siarad Cymraeg
- Deall Cymraeg
- Deall Cymraeg llafar
- Darllen Cymraeg

## 5. Recriwtio, Adnoddau Dynol, a Gohebiaeth

5.1. Mae'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r broses recriwtio yn gwbl ddwyieithog ac mae'n cynnwys y canlynol: hysbysebion swydd, disgrifiadau swydd, manylebau person, ffurflenni cais.
5.2. Bydd gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfweliad. Os na ellir cynnal y cyfweliad yn Gymraeg, darperir gwasanaeth cyfieithu priodol.
5.3. Gall unrhyw aelod o staff dderbyn ei gontract, a/neu ohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth, yn Gymraeg os dymunant.
5.4. Gall aelodau staff gael gafael ar wybodaeth datblygu a pherfformiad, dogfennau gwerthuso a pholisïau Adnoddau Dynol yn Gymraeg os dymunant.
5.5. Yn ystod y cyfnod sefydlu, bydd aelodau newydd o staff yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad ar eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefydliad, gan gynnwys y gefnogaeth sydd ar gael. Rhennir yr holl wybodaeth yn ganolog ar fewnrwyd y sefydliad.
5.6. Mae gan staff yr hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau disgyblu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 6. Adnoddau ac Offer Cymorth

6.1. Er mwyn cynorthwyo defnydd cywir a hyderus o'r Gymraeg, mae'r feddalwedd ganlynol ar gael i'r holl staff, gan gynnwys:

- Cysill
- Cysgeir
- Microsoft Office Welsh proofing language

### Galwadau ffôn, llofnodion e-bost, arwyddion a hysbysiadau

6.2. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Os yw'r galwr yn dymuno parhau â'r alwad yn Gymraeg ond nad yw'r aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg, trosglwyddir yr alwad i siaradwr Cymraeg.

6.3. I annog cysylltiadau i ddefnyddio'r Gymraeg a normaleiddio ei defnydd, mae gan bob aelod o staff lofnodau e-bost, negeseuon o'r swyddfa, negeseuon llais ffonau symudol a negeseuon fideo gynadledda ddwyieithog.

6.4. Darperir templedi a chefnogaeth i staff ar gyfer negeseuon o'r swyddfa, llofnodion e-bost a negeseuon llais.

6.5. Mae bathodynnau a llinynnau gwddf *Iaith Gwaith* yn cael eu dosbarthu ac ar gael i staff.

6.6. Defnyddir logo *Iaith Gwaith* ar dudalen staff gwefan ColegauCymru gan nodi pa aelodau sy'n siarad Cymraeg.

6.7. Mae logo *Iaith Gwaith* ar gael i staff ei ddefnyddio ar gefndiroedd rhithiol ar gyfer cyfarfodydd ar-lein.

6.8. Mae pob arwydd a hysbysiad ledled y sefydliad yn ddwyieithog a gwneir defnydd o bosteri *Iaith Gwaith*.

## 7. Canllawiau, Cefnogaeth a Chyngor

- Mae arweiniad, cefnogaeth a chyngor ar gael i'r holl staff ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y sefydliad o dan y Safonau Cymraeg statudol.

**Dogfennau Defnyddiol Cysylltiedig**
Hysbysiad Cydymffurfio ColegauCymru